

**Cyngor Cymuned Llanpumsaint**  
**Nodiadau Cyfarfod: 03.02.2015**  
**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

**Presennol : Y Cynghorwyr ; Elfed Davies, Carolyn Smethurst, Dylan Jones, Mike Poston, Danny Davies, Pamela Jones**  
**Ymddiheuriadau : Arwel Nicholas, Wyn Thomas, Cyngorydd Sir, Irfon Jones.**

<b>Rhif Agenda</b>	<b>Nodiadau/ Pendefyniadau</b>	<b>I'w weithredu gan</b>
Cofnodion	Cynnigiwyd eu bod yn gywir; DD, eiliwyd; DJ	
Materion yn codi	<p><b>Rhiw Graig</b> – Heb dderbyn ateb nôl oddi wrth Steve Pilliner.</p> <p><b>Croesfan Rheilffordd Gwili</b> - yn parhau I fod yn anwastad</p> <p><b>Llais y Llan</b> – Clerc yn son nad ydi'r fersiwn Gymraeg mor gywir a'r Saesneg. CS yn dweud nad oes achwyniad wedi bod er fod 30ain o gyhoeddiadau wedi eu cyhoeddu.</p> <p><b>Western Power</b> – rhesymau dros torriadau yng nghyflenwad y trydan ddwywaith yn ystod yr hydref/gaeaf oedd; coed yn cwmpo ar y gwifrau yn allt Cwmdudwr wrth I'r fforestwyr gwmpo coed ac uniad yn torri ar wifren dan ddaearol yn is-orsaf Llangeler.</p> <p><b>Un Llais Cymru</b> – nid ydi'n cael ei ystyried yn gywir I wneud rhodd allan o arian y Praesept. Os ydi'r Cynghorwyr am ddangos gwerthfawrogiad, rhaid gwneud cyfraniad bersonol</p> <p><b>Arwyddion</b> – arwydd Nant yr Ynys ar waith</p> <p><b>Clawdd y Cae Chwarae</b> – Clerc heb gael ateb oddi wrth yr Adran Gynllunio.</p> <p><b>Cyfieithu</b> – Trywydd yn diolch am gael eu penodi I wneud y gwaith cyfieithu.</p>	
Gohebiaeth	<p><b>Trydan</b> – CS yn argyhoeddiedig bod modd cael gostyngiad ym mhpris trydan goleuadau'r pentref. Y Clerc yn atgoffa'r Cyngor fod y cwestiwn hyn wedi ei godi o'r blaen, a bod Cyngor y Sir wedi caniatáu I Gyngor Llanpumsaint brynu trydan eu hun oddiwrth Gyflenwr arall ond fydd yna ddim gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud wedyn.</p> <p><b>Côd Ymddygiad</b> – Y Sir wedi penderfynu fod angen I agenda pob cyfarfod o hyn ymlaen, gychwyn gyda cofnodi buddianau</p>	
Elusennau/ Cyfraniadau	<p><b>Llais y Llan</b> – cynnigiwyd cyfrannu £300 gan DD a DJ yn eilio</p> <p><b>Neuadd Goffa a'r Pwyllgor Lles</b> - £400 yr un. Cynnigiwyd gan DD a MP yn eilio</p>	
Materion Ariannol	<p><b>Cyfieithu Trywydd</b>, £62.10 – cynnigiwyd DD, eiliwyd PJ</p> <p><b>Trydan</b> – £2,311.05, Cynnigiwyd DD, eiliwyd PJ</p> <p><b>Cyflog y Clerc</b> am 8 mis –</p> <p>Tâl am y Ty Hers - £25 wedi ei dderbyn</p>	

Cynllunio	Dim	
UFA	<p><b>PJ</b> – Dim</p> <p><b>MP</b> – Chris Peake wedi danfon neges a dderbyniodd oddi wrth ysgrifenyddes Angela Burns a wnaeth gysylltu gyda John McEvoy ynglyn a chymeryd camau I arafu trafndiaeth drwy'r pentref. J McEvoy yn dweud fod cynlluniau ar waith I gychwyn yn ystod 2015/16.</p> <p>Defibrillator – wedi cysylltu gyda cyfarwyddwr Calonnau Cymru, Sharon Owen. Modd prynu'r offer am £1,000 fyddai'n cynnwys hyfforddiant. Cymuned Llangadog wedi gosod defibrillator, a bwriedir ymweld â'r gymuned I wneud ymchwil ar sut mae'r offer yn gweithio. Efallai fyddai cynnal cyfarfod agored yn Llanpumsaint a gwahodd Gwasanaeth Ambiwlans I fynychu yn gychwyniad I'r syniad. ED yn gofyn I CS son am y syniad yn Llais y Llan.</p> <p>John Kerr – nid yw'r Cyngor Sir yn torri'r borfa ar ben heol Gerwyn Villa.</p> <p>Wal gerrig Rose Cottage/Glannant wedi cael ergyd ac angen ei drwsio.</p> <p>Cofnodion – beth am eu gosod yn yr Hysbysfwrdd? Ar ôl trafodaeth, cynnigiwyd bod y Clerc yn gofyn am ganiatad I'w gosod yn Siop Penbontbren.</p> <p>Cyfieithu – gan fod mwy o offer cyfieithu ar gael, efallai fyddai rhagor o bentrefwyr am fynychu cyfarfodydd.</p> <p><b>CS</b> – digwyddiad codi sbwriel I ddigwydd ar y 10fed o Fawrth Beth am y Cynllun Iaith? Clerc yn atgoffa'r Cyngor mae ym mis Ebrill cytunwyd trafod Polisi Iaith</p> <p><b>DJ</b> – pwll o ddŵr yn crynhoi ar yr heol gerllaw Lleine adeg glaw trwm.</p> <p><b>DD</b> -, Dim</p> <p><b>ED</b> - Dim</p>	

Cafwyd yn gywir : ..... (Cadeirydd)	Cafwyd yn gywir : ..... (Ysgrienydd)
Dyddiad : .....	Dyddiad: .....